Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon:** Llywodraeth Cymru 2022-23

Rhagfyr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon:** Llywodraeth Cymru 2022-23

Rhagfyr 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **6**

**1. Cyflwyniad** ..... **9**

**2. Paratoi'r Cyfrifon** ..... **10**

Amserlen ..... 10

Prosesau ..... 11

Ein barn ni ..... 13

**3. Gweithlu Llywodraeth Cymru** ..... **15**

Niferoedd staff ar gyfartaledd ..... 15

Capasiti ..... 17

Local Partnerships ..... 20

Pwysau ariannol ar adnoddau a staff ..... 22

Cynllunio a rheoli'r gweithlu ..... 24

Absenoldeb salwch staff ..... 25

Ein barn ..... 27

**4. Llywodraeth Cymru 2025** ..... **30**

Cynllun tair blynedd ..... 30

Cynnydd a newidiadau i'r rhaglen ..... 30

Ein barn ni ..... 31

**5. Yr Uwch Wasanaeth Sifil** ..... **33**

Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil ..... 34

Datganiad Polisi Tâl ..... 35

Ymddeoliad rhannol ..... 36

Ein barn ni ........ 37

**6. Colledion a thaliadau arbennig ........ 39**

Colledion ........ 39

Y Grant prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau ........ 39

Taliadau arbennig ........ 40

Ein barn ni ........ 41

**7. Llywodraethu a Sicrwydd ........ 42**

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ........ 42

Rôl ........ 42

Papurau pwyllgor ........ 42

Archwilio Mewnol ........ 43

Risgiau ........ 45

Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd ........ 45

Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ........ 46

Ein barn ni ........ 48

**8. Alldro yn erbyn y gyllideb – Incwm ........ 50**

**9. Adrodd am Berfformiad ........ 52**

Ein barn ni ........ 53

**10. Gweithredu argymhellion y Pwyllgor ........ 55**

Ein barn ni ........ 56

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........ 58**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi gwneud ei waith craffu ar Gyfrifon Cyfunol 2022-23 Llywodraeth Cymru. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyfrifon cyfunol (y “Cyfrifon”), sy’n rhoi amlinelliad o’i chyllid a’i rhwymedigaethau statudol.

Cymeradwywyd Cyfrifon 2022-23 ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2023, yn unol â'r amserlen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn ychydig wythnosau yn gynharach na Chyfrifon 2021-22, a gymeradwywyd ac a lofnodwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2021-22, rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i gyhoeddi'n flynyddol yr amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Cyfrifon. Rydym yn dal i gredu bod hyn yn hanfodol ar gyfer tryloywder mewn adroddiadau ariannol. Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru, ar adeg llunio’r adroddiad, wedi cyhoeddi’r amserlen ar gyfer ei Chyfrifon ar gyfer 2023-24 eto.

Er yr heriau presennol a’r cymhlethdodau o ran cwblhau’r cyfrifon, rydym o’r farn bod gan Lywodraeth Cymru gyfle i arwain y ffordd mewn adroddiadau ariannol, gan gynnwys tryloywder ynghylch yr amserlen ar gyfer ei Chyfrifon, ac mae'n bwysig ei bod yn gosod safon uchel fel enghraifft i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Thema drwy gydol ein hadroddiad yw'r heriau yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru o ran ei sgiliau a'i chapasiti a'r gofynion newidiol a'r pwysau adweithiol y mae'n rhaid i'w gweithlu eu bodloni. Bydd yn hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru y rhagwelediad strategol i nodi a chynllunio ar gyfer ailddyrannu adnoddau posibl a blaenoriaethu gofynion cystadleuol ar ei gweithlu.

Bydd hyn yn arbennig o heriol o ystyried y duedd gynyddol yn absenoldeb salwch staff a'r angen am gynllunio olyniaeth yng ngoleuni staff profiadol yn gadael fel rhan o'i chynllun ymadael gwirfoddol diweddar. Bydd y Pwyllgor yn cadw golwg ar yr heriau hyn a bydd yn monitro cynlluniau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn ei gylch nesaf o graffu ar gyfrifon.

**Mark Isherwood AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer Cyfrifon 2024-25 ar ôl iddi gael eu chytuno gydag Archwilio Cymru. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am baratoi a chymeradwyo'r achos busnes ar gyfer system cyllid newydd, ynghyd â gwybodaeth am y cynlluniau a'r costau posibl cysylltiedig os na chymeradwyir yr achos buses. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor, cyn y gwaith craffu ar Gyfrifon 2023-24, am ei chynlluniau i ddwyn y broses o gymeradwyo'r cyfrifon ymlaen i fis Medi. ........ Tudalen 14

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru lunio a chadw rhestr o gyrff y gall gaffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'eithriad Teckal' neu restr o gontractau a gaffaelwyd drwy'r dull hwnnw a'i bod yn rhannu'r rhestr hon â'r Pwyllgor unwaith y mae wedi'i chwblhau. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor hwn wybodaeth am ei defnydd o Local Partnerships, gan gynnwys gwariant a ysgwyddwyd, rhestr o gontractau a natur y gwasanaethau/gwaith a gaffaelwyd oddi tanynt. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r meini prawf y mae'n eu mabwysiadu ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau a pham na chyhoeddwyd adroddiad o'r fath pan benderfynodd gaffael daliad 5 y cant yn Local Partnerships. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a yw'n caffael gwasanaethau ymgynghori a gwaith prosiect arall drwy Weithredoedd Tendro Sengl ac, os felly, yn darparu manylion am yr achosion lle mae wedi gwneud hynny. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y meysydd lle mae wedi nodi pwysau o ran sgiliau a chapasiti gweithlu ac yn egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys esbonio sut y bydd adnoddau'n cael eu hailddyrannu a'u blaenoriaethu i fodloni'r pwysau hyn. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynlluniau ac amcanion manwl i'r Pwyllgor o ran sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r cysyniad o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un a'r mentrau sydd ganddi ar waith i ddatblygu a rhannu arbenigedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru. .......... Tudalen 28

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei chyfrifon, dadansoddiad o ddata absenoldeb staff er mwyn gwahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl a mathau eraill o salwch. .......... Tudalen 29

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y camau y mae swyddogion yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran absenoldebau salwch a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i staff, yn ogystal â'r amcanion ar gyfer sefydlu bwrdd sicrwyd iechyd a llesiant a diogelwch a'r effaith y bwriedir i hyn ei chael. .......... Tudalen 29

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi i'r Pwyllgor ei hasesiad o effaith symleiddio ei rhaglen Llywodraeth Cymru 2025, a beth yw goblygiadau hyn i'w chynlluniau i newid a gwella'r sefydliad. .......... Tudalen 32

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad am gynnydd y gwaith o dan raglen Llywodraeth Cymru 2025, yn benodol ar sgiliau, gallu a blaenoriaethau ei gweithlu, ynghyd â thystiolaeth bellach i ddangos sut mae'r gwaith hwn yn mynd i'r afaelâ heriau capasiti. .......... Tudalen 32

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau ei chynllun ymadael gwirfoddol diweddar, gan gynnwys nifer y staff sydd wedi gwneud cais i adael y sefydliad a'r achosion a gymeradwywyd, yn ogystal â'r mini prawf ar gyfer asesu ceisiadau a'r arbedion disgwyliedig sy'n deillio o'r cynllun. .......... Tudalen 32

**Argymhelliad 15.** Gan nodi cynllun ymadael gwirfoddol diweddar Llywodraeth Cymru a'r posibilrwydd o golli profiad ac arbenigedd o fewn y gweithlu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae'r risgiau cysylltiedig yn cael eu lliniaru. .......... Tudalen 32

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad o'i fframwaith perfformiad a'r gwaith o ddatblygu dull cerdyn sgorio cytbwys o ran adrodd ar berfformiad, gan gynnwys y cwmpas, y fethodoleg a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad, yn ogystal â

pha wybodaeth y mae swyddogion yn disgwyl ei chynnwys am y fframwaith perfformiad diwygiedig yn y cyfrifon. ........................................ Tudalen 54

# 1. Cyflwyniad

**1.** Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyfrifon cyfunol (y "Cyfrifon"), sy'n rhoi amlinelliad o'i chyllid a'i rhwymedigaethau statudol.

**2.** Cyfrifon 2022-23 oedd y trydydd i gael eu cyhoeddi ers i Dr Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol presennol, ddechrau yn ei swydd ar 1 Tachwedd 2021. Cymeradwywyd a llofnodwyd y Cyfrifon ar 29 Tachwedd 2023.

**3.** Gosodwyd Cyfrifon 2022-23 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gerbron y Senedd ar 30 Tachwedd 2023. Darparodd farn ddiamod 'gwir a theg' a 'rheoleidd-dra' arnynt.

**4.** Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ei waith craffu ar Gyfrifon 2022-23 ym mis Mawrth 2024. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru ar 20 Mawrth gyda rhagor o dystiolaeth wedi'i darparu yn ysgrifenedig. Hefyd, cynhaliom sesiwn dystiolaeth ddilynol ar Local Partnerships ar 12 Mehefin 2024, a oedd yn fater penodol o ddiddordeb yn deillio o'n sesiwn dystiolaeth gynharach. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau.

# 2. Paratoi'r Cyfrifon

## Amserlen

**5.** Cymeradwywyd Cyfrifon 2022-23 ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ym mis Tachwedd yn unol â'r amserlen a rannodd Llywodraeth Cymru gyda'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2023. Roedd hyn ychydig wythnosau yn gynharach na Chyfrifon 2021-22, a gymeradwywyd ac a lofnodwyd ar 12 Rhagfyr 2022. Gwnaethom ofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru beth oedd y prif heriau wrth gwblhau'r cyfrifon yn unol â'r amserlen a sut gwnaethon nhw eu goresgyn.

**6.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol sut mae'r cyfrifon wedi dod yn fwy cymhleth bob blwyddyn gydag ystod gynyddol o feysydd y mae angen canolbwyntio arnynt. Clywsom fod Cyfrifon 2022-23 yn adlewyrchu safonau cyfrifyddu newydd a bod yn rhaid iddynt gwmpasu ystod o wahanol sefydliadau, gan gynnwys rhai o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru[1]. Bellach mae 17 o sefydliadau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cynnwys yn ei threfniadau cyllideb a'i chyfrifon.[2]

**7.** Er i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi Cyfrifon 2022-23 ychydig wythnosau ynghynt na'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi dychwelyd i'w hamserlen fel yr oedd cyn COVID-19 ar gyfer cwblhau ei chyfrifon. Cymeradwywyd a llofnodwyd Cyfrifon 2018-19 gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd ym mis Awst 2019.

**8.** Ym mis Mawrth 2023, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor y byddai'n dasg anodd i Lywodraeth Cymru osod ei chyfrifon gerbron y Senedd ym mis Awst neu fis Medi bob blwyddyn.[3] Nododd bod cwmpas y cymhlethdod yn y cyfrifon yn cynyddu bob blwyddyn, oherwydd cynnydd yn nifer y sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru.[4]

**9.** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid:

> *"… it's ambitious, but we've agreed a three-year plan for trying to bring the sign-off back to September. As has been said, there will be some complications around that, but that's what we've agreed we will try*

[1] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 30
[2] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 30
[3] Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2023, paragraff 63
[4] Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2023, paragraff 63

> *and do, and in our planning each year with Audit Wales, we will work towards that goal now.'*[5]

**10.** Gofynnon ni i swyddogion pa gynnydd roedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn erbyn y cynllun tair blynedd ers iddyn nhw ddweud wrthym amdano y llynedd, yn ogystal â pha gerrig milltir y gellid eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

**11.** Yn ogystal â'r heriau o gynnwys cyrff ychwanegol yn ei chyfrifon cyfunol, clywsom fod yr amserlenni ar gyfer archwilio hefyd wedi symud yn sylweddol oherwydd y cymhlethdodau ychwanegol dan sylw:

> *'… whereas the Welsh Government final account would be audited in about seven weeks, it's now to 13 weeks'.*[6]

**12.** Gwnaethom ofyn a oedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ag Archwilio Cymru ar yr amserlen i gymeradwyo Cyfrifon 2023-24 a phryd byddai hyn yn cael ei gyhoeddi.[7] Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod wedi trafod yr amserlen gydag Archwilio Cymru ac, adeg y sesiwn dystiolaeth (Mawrth 2024), roedd yn annhebygol y byddai llofnodi cyfrifon 2023-24 yn cael ei ddwyn ymlaen.

**13.** Cadarnhaodd swyddogion mai'r dyddiad targed ar gyfer cymeradwyo oedd 30 Tachwedd 2024[8], yn unol â chwblhau Cyfrifon 2022-23. Yn amodol ar gymeradwyaeth Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Llywodraeth Cymru, byddai dyddiadau allweddol yn ymwneud ag archwilio a chyhoeddi'r cyfrifon yn cael eu cynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru[9]. Mae hyn yn unol ag argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn ei adroddiad ar graffu ar gyfrifon 2017-18.

**14.** Roedd trafodaethau'n parhau gydag Archwilio Cymru ynglŷn â'r dull gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf, cyfrifon 2023-24 i gyfrifon 2025-26. Felly, mae'r cyfnod cynllunio tair blynedd blaenorol wedi'i ymestyn i bedair blynedd[10].

## Prosesau

**15.** Ym mis Ebrill 2019, rhannodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol bapur gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol, a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio a

[5] Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2023, paragraff 64
[6] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 37
[7] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 41
[8] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 42
[9] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 42
[10] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 40

Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru am y gwersi a ddysgwyd wrth baratoi Cyfrifon 2017-18.[11] Roedd y papur hwn yn dweud:

> *'Yn y tymor canolig, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r ffaith ei bod yn dibynnu ar daenlenni cymhleth i gydgrynhoi llawer iawn o ddata. Bydd hyn yn dod yn fwy o ffactor wrth inni gydgrynhoi rhagor o sefydliadau'r sector cyhoeddus. Yn anffodus, nid oedd modd bwrw ymlaen â hyn ar gyfer 2018-19. Fodd bynnag, mae ein swyddog cyllid ar y llwybr carlam yn ymdrin â'r broblem hon fel rhan o'i brosiect blwyddyn olaf. Bydd ei gasgliadau a'i argymhellion ar gael erbyn mis Medi eleni.'*[12]

**16.** Nododd y Pwyllgor bod y gwelliannau hyn yn bwysig o ystyried y daw'r ymarfer cysoni â chyrff ychwanegol o fewn ffin gyfrifyddu Llywodraeth Cymru.[13] Diben 'ymarfer cysoni' yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffin ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Senedd â'r un a ddefnyddir gan y Trysorlys er mwyn rheoli gwariant cyhoeddus. Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd baratoi ei chyfrifon cyfunol ar yr un sail. Mae Llywodraeth Cymru yn cwblhau hyn fesul cam, gyda chyrff cyhoeddus yn cael eu dwyn i'w ffin cyfrifyddu wrth iddi gwblhau pob cam.

**17.** Roedd y papur hefyd yn nodi'r adnoddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith ar gyfer paratoi'r cyfrifon: tîm o bump o staff, gyda Dirprwy Gyfarwyddwr i "oruchwylio'r cyfrifon blynyddol, ynghyd a'r ganolfan ragoriaeth grantiau, llywodraethiant a threthi".[14] Ystyr hyn oedd 'bod nifer y staff sy'n canolbwyntio ar lunio cyfrifon blynyddol 2018-19 wedi dyblu'.[15]

**18.** Gwnaethom nodi sylwadau'r cyn Ysgrifennydd Parhaol ac, yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23, gwnaethom ofyn i swyddogion a oeddent wedi mynd i'r afael â dibyniaeth Lywodraeth Cymru ar daenlenni cymhleth i gydgrynhoi llawer iawn o ddata. Gwnaethom hefyd ofyn pa sicrwydd allai'r swyddogion ei roi

---

[11] Papur y Pwyllgor Archwilio a Risg - Gwersi a ddysgwyd o'r broses o baratoi Cyfrifon Blynyddol 2017-18
[12] Papur y Pwyllgor Archwilio a Risg - Gwersi a ddysgwyd o'r broses o baratoi Cyfrifon Blynyddol 2017-18, paragraff 11
[13] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, paragraff 16
[14] Papur y Pwyllgor Archwilio a Risg - Gwersi a ddysgwyd o'r broses o baratoi Cyfrifon Blynyddol 2017-18, paragraff 6
[15] Papur y Pwyllgor Archwilio a Risg - Gwersi a ddysgwyd o'r broses o baratoi Cyfrifon Blynyddol 2017-18, paragraff 7

am y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i baratoi'r cyfrifon ac a ydynt yn addas i'r diben.[16]

**19.** Roedd y swyddogion yn cydnabod eu bod yn dal i ddefnyddio taenlenni cymhleth, ond roedd cynnydd yn cael ei wneud wrth symud i ffwrdd o'r rhain oherwydd materion ynghylch darfodiad gyda'r system gyllid yn fwy cyffredinol. Wrth esbonio hyn ymhellach dywedwyd wrthym:

> *'... our finance systems have been in place since 2010, and every organisation goes through obsolescence because the companies that provide these tools are constantly upgrading and, actually, remove support from older systems. So, we're looking at replacing our finance system over the next few years and, as part of that, we will be looking at the consolidation aspects of that for the accounts.'*[17]

**20.** Dywedwyd wrthym hefyd y bydd angen cyflwyno achos busnes cadarn a'i gymeradwyo ar gyfer yr un newydd. Os caiff ei gymeradwyo, gallai gymryd blwyddyn neu ddwy arall, ar ôl i achos busnes gael ei gymeradwyo, i'w weithredu.[18]

## Ein barn ni

**21.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2021-22, rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i gyhoeddi'n flynyddol yr amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Cyfrifon. Rydym yn dal i gredu bod hyn yn hanfodol ar gyfer tryloywder mewn adroddiadau ariannol.

**22.** Fodd bynnag, rydym yn nodi ar adeg llunio'r adroddiad, nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r amserlen ar gyfer ei Chyfrifon ar gyfer 2023-24 eto, dros chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi. Yn yr un modd â'n hadroddiadau blaenorol ar y materion hyn, rydym yn cydnabod yr heriau a'r cymhlethdodau presennol wrth gwblhau'r cyfrifon. Fodd bynnag, fel yr adroddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'n rhagflaenodd, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i arwain y ffordd mewn adroddiadau ariannol, gan gynnwys tryloywder ynghylch yr amserlen ar gyfer ei chyfrifon, ac mae'n bwysig ei bod yn gosod safon uchel fel enghraifft i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

---

[16] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 45
[17] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 47
[18] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 47

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn a chyhoeddi'r amserlen ar gyfer ei Chyfrifon 2023-24 ar ôl iddi gael ei chytuno gydag Archwilio Cymru.

**23.** Rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn dal i ddefnyddio taenlenni cymhleth fel rhan o'i phroses paratoi cyfrifon, ac rydym hefyd yn pryderu am ddarfodiad eu system cyllid. Mae risgiau busnes cysylltiedig a goblygiadau adnoddau posibl, o ran costau ac amser staff.

**24.** O ystyried hyn, rydym yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu disodli'r system gyllid ond rydym yn pryderu bod yr achos busnes dros gael system newydd yn dal i fod yn destun cymeradwyaeth. Rydym yn nodi, ym mis Ebrill 2019, fod y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi dweud wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol fod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'i dibyniaeth ar daenlenni cymhleth i baratoi'r cyfrifon. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi delio â'r pandemig Covid yn y cyfamser ac ers hynny mae cymhlethdodau cynyddol wedi codi wrth baratoi'r cyfrifon. Fodd bynnag, rydym yn poeni am y risgiau sydd ynghlwm â pharhau i ddefnyddio'r taenlenni cymhleth hyn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer Cyfrifon 2024-25 ar ôl iddi gael eu chytuno gydag Archwilio Cymru.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am baratoi a chymeradwyo'r achos busnes ar gyfer system cyllid newydd, ynghyd â gwybodaeth am y cynlluniau a'r costau posibl cysylltiedig os na chymeradwyir yr achos busnes.

**25.** Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ar waith craffu ar Gyfrifon 2021-22 ei bod yn galonogol bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ag ACC ar gynllun tair blynedd, gydag uchelgais gyffredin i gwblhau'r cyfrifon ym mis Medi. Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw gynnydd eto o ran dod â'r dyddiadau targed ymlaen o ddiwedd mis Tachwedd a bod y cynllun gwreiddiol i wneud hyn dros dair blynedd bellach wedi'i ymestyn i bedair blynedd. Rydym yn cydnabod yr heriau, gan gynnwys y rhai a nodwyd am y system gyllid a'r defnydd parhaus o daenlenni cymhleth. Serch hynny, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag ACC i ddod â'r broses o gymeradwyo cyfrifon ymlaen i fis Medi.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor, cyn y gwaith craffu ar Gyfrifon 2023-24, am ei chynlluniau i ddwyn y broses o gymeradwyo'r cyfrifon ymlaen i fis Medi.

# 3. Gweithlu Llywodraeth Cymru

## Niferoedd staff ar gyfartaledd

**26.** Mae nifer cyfartalog holl staff Llywodraeth Cymru wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2017-18 ar ôl gostwng mewn blynyddoedd olynol rhwng 2014-15 a hynny. Nifer cyfartalog y staff ar gyfer 2022-23 oedd yr uchaf y mae wedi bod dros y deng mlynedd diwethaf (sef bron i 5,700 Cyfwerth ag Amser Llawn), o'i gymharu â'r isaf yn 2017-18 (ychydig dros 5,000 Cyfwerth ag Amser Llawn).[19]

**27.** Mae Tabl 1 yn nodi'r nifer cyfartalog o staff Cyfwerth ag Amser Llawn yn Llywodraeth Cymru am bob un o'r deng mlynedd diwethaf, fel yr adroddwyd yn y cyfrifon.

**Tabl 1: Nifer Cyfartalog Staff Llywodraeth Cymru, 2013-14 i 2022-23 (Cyfwerth ag Amser Llawn)**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Holl staff** | 5,497 | 5,556 | 5,293 | 5,111 | 5,022 | 5,092 | 5,317 | 5,421 | 5,582 | 5,695 |
| Staff a gyflogir yn barhaol | 4,995 | 5,113 | 5,011 | 4,978 | 4,881 | 4,813 | 4,891 | 5,087 | 5,185 | 5,250 |
| Staff eraill | 495 | 433 | 273 | 126 | 132 | 270 | 416 | 322 | 386 | 431 |
| Cynghorwyr arbennig | 7 | 10 | 9 | 7 | 9 | 9 | 10 | 12 | 11 | 14 |

Ffynhonnell: Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru, 2013-14 i 2022-23

**28.** Rydym yn nodi'r cynnydd yn nifer y staff, gan gynnwys y cynnydd sylweddol ers 2017, a gwnaethom holi a fu unrhyw gyfnod, yn ystod y cyfnod hwnnw, pan fu unrhyw beth y gellid ei ddisgrifio fel cap wedi'i osod ar nifer y staff.[20]

**29.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *'No. We have had, in the past, concerns where our numbers have grown beyond our budget. So, there would be a concern from Ministers, generally, about us managing within that budget. But, in respect of the UK civil service arrangements, which we are part of, we*

[19] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2015-16, 2016-17, 2019-20 a 2022-23.
[20] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 100

> *did not have any head-count reductions applied to us, because, of course, Welsh Government Ministers set our budget and, irrespective of the UK civil service arrangements, we were put to the side of those expectations from UK Government that were being set for their own UK Government departments as well.'*[21]

**30.** Fodd bynnag, clywsom hefyd ei bod yn anochel bod rhai terfynau ar nifer y staff er mwyn i gostau Llywodraeth Cymru aros o fewn y gyllideb. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol: "whether it's a head-count limit or whether it's a budget, inevitably, there is a constraint on how we can organise ourselves."[22]

**31.** Gwnaethom nodi, o'r dadansoddiad o ffigurau staffio, dros y pump i chwe blynedd diwethaf, y bu twf yn nifer cyfartalog y staff a gategoreiddiwyd fel 'staff eraill'. Gofynnwyd am resymau dros hyn ac eglurhad ynghylch a oedd y staff hyn yn cael eu cyflogi'n barhaol.

**32.** Er ei fod yn cydnabod rôl bwysig y staff hyn, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol mai rolau dros dro oedd y rhain. Eglurodd ei bod yn rhan naturiol o unrhyw sefydliad, gan gynnwys y gwasanaeth sifil, i fod â hyblygrwydd o ran trefniadau ei weithlu a staff dros dro.[23] Ychwanegodd bod hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gydnabod bod rhai rhaglenni â chyfyngiad amser ar waith na fyddai'n galw am rolau parhaol bob amser. Esboniodd hyn drwy roi enghraifft:

> *'A programme for government may give an expectation that we do have a team in place only for a year or two years, and I think it does give us an opportunity to bring some new experience into the organisation. I think our temporary staff arrangements have also helped us to handle some of the diversity representation within the organisation as well'.*

**33.** Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu amrywiaeth o wahanol gontractau, gan gynnwys penodiadau tymor penodol a chontractau asiantaeth. Roedd hefyd yn gweithredu secondiadau a chytundebau benthyca gyda sefydliadau eraill.[24]

---

[21] , 20 Mawrth 2024, paragraff 107
[22] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 109
[23] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 115
[24] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 116

**34.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol: "temporary staff arrangements have also helped us to handle some of the diversity representation within the organisation as well".[25] Ychwanegodd:

> *'I think one of my worries, as we look at some of the particular challenges that we're facing right now as an organisation, is that there are temporary staff in what feels as though they are substantive roles that will still be required in three years', in five years' time. So, irrespective of the underlying flexibility, I do think we need to take a look at that, but some of the growth has just been that we have been able to step in more quickly with some of our temporary staff arrangements.'*[26]

## Capasiti

**35.** Gofynnom i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd y cyfyngiadau ar niferoedd staff wedi cyfrannu at rai o'r cyfyngiadau capasiti, megis nifer y cyfreithwyr o fewn Llywodraeth Cymru i ddelio â'r rhaglen ddeddfwriaethol. Gwnaethom gyfeirio at dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a ddywedodd mai un o'r rhesymau y cytunodd Llywodraeth Cymru ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol yn hytrach na deddfu fel Llywodraeth Cymru oedd oherwydd diffyg cyfreithwyr ac arbenigwyr polisi'r gwasanaeth sifil i fynd i'r afael â'r gwaith hwnnw.[27]

**36.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *'I think they would have had an influence on some of that. Obviously, when we manage within our budget, we make choices. I think the lawyer example, for me, was trying to make sure that we were sensibly using the public money that we have available and just trying to use it to better effect. So, rather than feeling that it was suppressing it, I just thought that there was another route that we could take here, which is that we didn't need to rely on some of the more specialist external advice; we could translate it, actually, into public service areas. But, inevitably, the constraints that we operate in*

[25] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 115
[26] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 115
[27] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 110

> *will have an implication and a knock-on effect in some of those areas as well.'*[28]

**37.** Ychwanegodd:

> *'One area that I've really tried to make feel different over the last two years, but certainly 18 months, is making sure that some of the constraints that were affecting the legislative programme and its ability to keep up with some of the expectations—. But we have actually, genuinely, invested in teams there, and that does include deploying some of the legal requirements and expertise that was required as well.'*[29]

**38.** Ym mis Mehefin 2023, ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg atom i amlygu ei bryderon ynghylch capasiti gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, yn enwedig ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.[30]

**39.** Yn ei Chyfrifon, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *'Mae gallu dadansoddol yn dal yn fod yn her barhaus o ran sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u neilltuo i fodelau hanfodol o ran busnes. Mae llawer o dimau yn dibynnu ar nifer bach o ddadansoddwyr sydd â sgiliau arbenigol, gan eu gwneud yn agored i golli gallu a gwybodaeth. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos lefelau rhesymol o gynlluniau wrth gefn, gyda dadansoddwyr o bob rhan o'r gymuned fodelu, o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru, yn cefnogi ei gilydd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yn ôl yr angen.'*[31]

**40.** Gofynnon ni i'r Ysgrifennydd Parhaol ble mae'r problemau capasiti yng ngwasanaeth sifil Cymru. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod rhai o'r problemau capasiti hyn ar hyn o bryd yn deillio o raglen ddeddfwriaethol lawn a dwys sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith ar ddiwygio'r Senedd yn ddiweddar, i sicrhau ei bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddisgwyliadau, a bod y tîm sy'n gweithio ar y maes

[28] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 111
[29] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 112
[30] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus am gapasiti'r Gwasanaeth Sifil, 22 Mehefin 2023
[31] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23 , – Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 147

hwn wedi cael adnoddau da. Fodd bynnag, ystyr hyn yw bod rhywfaint o arbenigedd wedi'i gymryd o rywle arall yn y sefydliad.[32]

**41.** Ymhellach, clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai o'r cyfyngiadau capasiti presennol yn deillio o'r cyfrifoldebau diwygiedig ar ôl gadael yr UE.[33]

**42.** Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg fel cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru a darparu ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd o Wcráin. Clywsom, gan nad oedd ganddi dîm presennol ar gyfer hyn a'i gydnabod fel maes blaenoriaeth, fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi adnoddau a chreu tîm i gefnogi'r gwaith hwn. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *'given we're a compact organisation, it probably feels that we're often juggling those different priorities right across the organisation, and sometimes having to choose the one that is right in front of us.'*[34]

**43.** O ran capasiti, gwnaethom hefyd holi am rôl llwybr carlam y Gwasanaeth Sifil a'r pryderon, ar lefel y DU, am y dirywiad mewn ceisiadau a'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y llwybr carlam. Hefyd, a oedd y cynnig wedi'i newid yn ddiweddar, gydag ymgeiswyr llwyddiannus bellach yn gallu treulio eu hamser yn gyfan gwbl yng Nghymru.

**44.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y llwybr carlam a'i fod yn rhoi cyfle i ddangos cyfrifoldebau datganoledig y Llywodraeth ar waith.[35] Ychwanegodd:

> *'what I'd really like to do is to find a way of pushing into some further, more practical mechanisms around the 'one Welsh public service' concept, which would allow us more to think about exchanges that are more specific to Wales in the round – possible not just the Welsh Government as an institution, but actually more generally across our public services'.*[36]

[32] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraffau 96-97
[33] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 98
[34] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 99
[35] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 114
[36] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 124

**45.** Ar ben hynny, byddai'r ysgol lywodraethu genedlaethol arfaethedig yn rhan o'r ffordd honno o feddwl hefyd.[37]

## Local Partnerships

**46.** Gwnaethom holi am rôl cwmni o'r enw Local Partnerships. Gofynnwyd am eglurder ynghylch cysylltiadau Llywodraeth Cymru â'r cwmni hwn ac a oedd defnyddio staff mewn cwmnïau fel hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i oresgyn rhai o'r terfynau cyllidebol a osodwyd arni.[38]

**47.** Ar adeg rhoi tystiolaeth lafar, nid oedd swyddogion yn ymwybodol o'r cwmni, ond cytunon nhw i ddarparu gwybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth.[39] Ar ôl ystyried y wybodaeth hon, aeth y Pwyllgor ar drywydd ei ddiddordeb yn y materion hyn yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 12 Mehefin 2024.

**48.** Mae Local Partnerships yn Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2009. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru tan fis Ionawr 2018, y bu Local Partnerships o dan berchnogaeth gyfartal Trysorlys EF a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA).[40] Aeth ymlaen i nodi fod Llywodraeth Cymru, ym mis Ionawr 2018, wedi cael ei derbyn fel aelod, gan gaffael cyfalaf 5% am ddim cost. Cafodd 'cyfran' Trysorlys ei Fawrhydi ei ostwng i 45%. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad yw ei berchnogaeth yn "rhoi unrhyw hawl iddi i ddosbarthiadau ac nid yw ychwaith yn ei gwneud yn agored i unrhyw geisiadau am gyllid ychwanegol".[41] Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae'n nodi:

> *'Ildiodd Llywodraeth Cymru, yn ddiwrthdro, unrhyw ddosbarthiadau o'r daliad o 5% ac ni fyddai'n agored i geisiadau am gyllid ychwanegol petai angen cyllid o'r fath ar LP unrhyw bryd yn y dyfodol.'*[42]

**49.** Yn ei Adroddiad a'i Ddatganiadau Ariannol ar gyfer 2022-23, nododd Local Partnerships fod Trysorlys Ei Fawrhydi a'r LGA yn 'aelodau dynodedig', sydd â mwy

[37] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 126
[38] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 113
[39] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 116
[40] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 15 Ebrill 2024
[41] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 15 Ebrill 2024
[42] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, 15 Ebrill 2024

o gyfrifoldebau nag aelodau cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu ar ran y Bartneriaeth AtebolrwyddCyfyngedig os caiff ei dirwyn i ben. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr asedau net yn cael eu dosbarthu'n gyfartal i Drysorlys Ei Fawrhydi a'r LGA.[43]

**50.** Ar 31 Mawrth 2023, roedd Trysorlys Ei Fawrhydi a'r LGA wedi cyfrannu £1.6 miliwn o gyfalaf at Local Partnerships, sy'n cael ei ddosbarthu a'i drin fel cyfalaf (ond nid fel cyfranddaliadau).

**51.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ar 12 Mehefin 2024, darparodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Prif Swyddog Gweithredu yn Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd y llythyr nad oedd adroddiad penderfyniad wedi'i lunio gan Lywodraeth Cymru ynghylch caffael daliad o 5% yn Local Partnerships.[44]

**52.** Roedd y llythyr yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru 14 aelod o'i staff Local Partnerships yng Nghymru, ac mae pob un ond un wedi gweithio ar brosiectau gyda Llywodraeth Cymru (yr eithriad yw swyddog cymorth gweithredol nad yw'n ymwneud â chleientiaid). Cyd-destun hyn yw bod gan Local Partnerships 75 aelod o staff ar gyfartaledd yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023.

**53.** Roeddem wedi gofyn am wybodaeth am gyrff eraill y mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant ynddynt ac y gall gaffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r eithriad Teckal[45], ynghyd â gwybodaeth am ei defnydd ohonynt, gan gynnwys gwariant a ysgwyddwyd, rhestr o gontractau a natur y gwasanaethau/gwaith a gaffaelwyd oddi tanynt. Hefyd, cadarnhad a yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio Gweithredoedd Tendro Sengl i gaffael gwasanaethau o'r fath ac, os felly, manylion am yr achosion y mae wedi gwneud hynny ynddynt.

**54.** Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Mae'n dweud nad yw'n cadw rhestr ganolog o gyrff y gall gaffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'eithriad Teckal'. Mae'r llythyr hefyd yn nodi:

---

[43] Guidance - Set up and run a limited liability partnership (LLP)
[44] Llythyr gan Brif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, Local Partnerships LLP, 23 Medi 2024
[45] Mae Local Partnerships yn elwa ar gael ei eithrio o ddeddfwriaeth caffael sy'n cael ei adnabod fel eithriad "Teckal". Mae hyn yn caniatáu i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn rheolaeth ar y cyd ar Local Partnerships ddyfarnu contractau i Local Partnerships heb gystadleuaeth, ar yr amod bod gofynion penodol yn cael eu bodloni.

> *'At ddibenion caffael, pan fo'r esemptiad Teckal yn gymwys, nid oes gofyniad i Lywodraeth Cymru fynd drwy unrhyw fath o broses gaffael gan gynnwys Gweithred Tendr Sengl'.*[46]

**55.** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru sut mae'n penderfynu bod cael gwasanaethau ymgynghori gan Local Partnerships, yn hytrach nag ymgynghorwyr allanol eraill, yn briodol ar gyfer prosiect, ac a yw'r gallu i ddyfarnu contractau i Local Partnerships heb gystadleuaeth yn dylanwadu ar hyn.

**56.** Mae'r llythyr yn egluro bod yn rhaid i'r holl wariant y mae Llywodraeth Cymru yn mynd iddo gydymffurfio â thelerau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, y mae'r Pwyllgor wedi nodi y mae angen ei ddiweddaru. Er ei fod yn ychwanegu nad oes unrhyw ragdybiaeth mai Local Partnerships fyddai'r opsiwn diofyn wrth i swyddogion benderfynu penodi ymgynghorwyr allanol, nid yw ymateb Llywodraeth Cymru yn esbonio sut maen nhw'n penderfynu pa gwmni i'w ddefnyddio.

**57.** Ar gyfer prosiectau tymor hir, mae Llywodraeth Cymru'n dweud bod ymgynghorwyr ond yn cael eu defnyddio cyhyd ag sy'n angenrheidiol. Fodd bynnag, ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, mae'n cytuno ar gynllun gwaith blynyddol gyda Local Partnerships i adlewyrchu gofynion newidiol.

## Pwysau ariannol ar adnoddau a staff

**58.** Ym mis Hydref 2023, newidiodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24 gan ei bod wedi:

> *'... gweld lefelau hir o chwyddiant ynghyd â heriau parhaus yn y cyd-destun cyllidol, yn enwedig mewn meysydd megis tâl y sector cyhoeddus. O ganlyniad, yn gyffredinol, rydym yn gorfod gwario mwy na'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei wario yn flaenorol eleni, gan roi pwysau digynsail ar Gyllideb ddatganoledig Cymru.'*[47]

**59.** Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd (y 'Gweinidog') y "gofynnwyd i bob portffolio gweinidogol wneud cyfraniad er mwyn cwrdd â'r pwysau sy'n ein hwynebu ar sail drawslywodraethol".[48]

[46] Llythyr gan Brif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, Local Partnerships LLP, 23 Medi 2024
[47] Llywodraeth Cymru - Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24, Hydref 2023, tudalen 1
[48] Senedd Cymru, Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2023, paragraff 127

**60.** Ym mis Gorffennaf 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru fod angen iddi wneud "penderfyniadau eithriadol o anodd" wrth osod ei chyllideb ar gyfer 2024-25.[49]

**61.** Gofynnom i swyddogion ynghylch maint yr her sy'n wynebu gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ystyried y pwysau ariannol ar gyfer 2024-25, a sut y mae'n ymateb i hynny.

**62.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn bwysig gwneud y canlynol:

> *'recognise that everything that every organisation is experiencing, because of the last two years of inflationary pressures and pay awards and how that translates into costs, Welsh Government, of course, experiences that itself in terms of its own operating costs.'*[50]

**63.** Ychwanegodd, er bod cyllidebau dros y blynyddoedd wedi parhau'n 'eithaf sefydlog', mae pwysau chwyddiant wedi golygu bod yn rhaid i gyllideb Llywodraeth Cymru wneud mwy gyda llai o gyllid. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall weithio'n wahanol o ganlyniad i'r pwysau hyn.[51]

**64.** Gwnaethom nodi bod y risg gweddilliol ar gyfer 'Llesiant staff' wedi cynyddu yn ystod 2022-23 i fod yn 'uchel iawn' (ac yn hollbwysig). Gwnaethom ofyn pam a sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r risg, yn enwedig o ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sefydliad.

**65.** Eglurodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod y risg wedi cynyddu i adlewyrchu sawl elfen wahanol, gan gynnwys yr argyfwng costau byw a'r heriau cysylltiedig y mae staff yn teimlo eu bod yn eu hwynebu. Ychwanegodd bod ymatebion i arolwg staff Llywodraeth Cymru yn dangos bod tua 20 y cant o staff yn teimlo pwysau llwyth gwaith. Ar y sail honno, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn mai dyma'r adeg iawn i gynyddu'r risg weddilliol, gan awgrymu ei bod yn dychwelyd i'w lefel flaenorol.[52]

**66.** Clywsom fod Llywodraeth Cymru yn ystyried llesiant staff drwy'r strategaeth iechyd a llesiant newydd, yn ogystal â dull newydd o edrych ar lwyth gwaith derbyniol a sut mae gweithgarwch yn cael ei flaenoriaethu ar draws y sefydliad

[49] Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Llywodraeth Cymru - 14 Gorffennaf 2023
[50] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 148
[51] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 148
[52] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 170

drwy Lywodraeth Cymru 2025. Mewn ymateb i gwestiynau penodol am y cymorth iechyd a llesiant y mae'n ei ddarparu, dywedodd Llywodraeth Cymru fod ganddi gyfradd ymateb gadarnhaol o 72 y cant yn ei harolwg staff. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil o tua 60 y cant, ond roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn cydnabod bod angen mwy o waith.[53]

**67.** Ychwanegodd mai rhan o'r her yw egluro wrth staff pa gefnogaeth sydd ar gael ac y byddai'r sefydliad yn hoffi iddyn nhw fanteisio ar y gefnogaeth honno.[54]

## Cynllunio a rheoli'r gweithlu

**68.** Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Gyfrifon 2021-22, nododd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gweithlu ar gyfer blwyddyn 1 ym mis Ionawr 2023, gyda:

> *'... 'phenodau' allweddol o'r strategaeth bellach ar waith gan gynnwys Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd; Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant; Cynllun Galluoedd a Sgiliau ac ymagwedd at Ddyrchafiad a Dilyniant. Mae blaenoriaethau ar gyfer 2024 yn cael eu trafod ar hyn o bryd fel rhan o flaenoriaethau cyffredinol WG2025. Bydd ein cynllun gweithredu blwyddyn un yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor.'*[55]

**69.** Ymrwymodd i adolygu ei Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu erbyn mis Ebrill 2025.[56] Mae hyn yn hwyrach na'r hyn a nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilio Cymru ar gynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru (Medi 2022), lle dywedwyd y byddai'n cynnal adolygiad ffurfiol ar ddiwedd 2023-24.[57]

**70.** Gwrthododd Llywodraeth Cymru argymhellion y Pwyllgor ei bod yn darparu diweddariadau bob chwe mis am ddatblygiad ei strategaeth gweithlu newydd [Argymhelliad 23] a chyflwyno'r Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd [Argymhelliad 24]. Roedd hyn ar y sail bod y rhain yn faterion gweithredol.[58]

---

[53] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 171
[54] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 172
[55] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 12 Chwefror 2024
[56] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 12 Chwefror 2024
[57] Ymateb LlC i adroddiad ACC ar gynllunio'r gweithlu (Saesneg yn unig), 5 Hydref 2022
[58] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, 12 Chwefror 2024

**71.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi lansio ei system wybodaeth AD newydd (Pobl) ym mis Gorffennaf 2023, gan ychwanegu "Mae gwaith i ymwreiddio'r system yn llawn, datblygu gallu adrodd ymhellach a galluogi gwelliannau busnes tymor hwy yn parhau".[59]

**72.** Gwnethom ofyn am statws y system Adnoddau Dynol newydd ac os nad ydych chi wedi ei gwblhau eto, sut ydych chi'n sicrhau bod gennych chi wybodaeth gywir ac amserol i gynorthwyo'r gwaith o reoli'r gweithlu.

**73.** Esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y system Adnoddau Dynol newydd wedi'i rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2023, gyda'r systemau blaenorol wedi mynd yn hen ac allan o gymorth.[60] Nododd y risg busnes clir a'r angen i weithredu'r systemau hynny ond sicrhaodd i ni fod y system bellach yn gweithredu. Ychwanegodd bod gan Lywodraeth Cymru strategaeth hirdymor hefyd, sy'n cynnwys adnoddau dynol, cyllid a systemau cysylltiedig.[61]

## Absenoldeb salwch staff

**74.** Mae Tabl 2 yn nodi absenoldebau oherwydd salwch yn Llywodraeth Cymru, fel yr adroddwyd yn ei chyfrifon blynyddol, o 2013-14 i 2022-23. Mae'n dangos, fel cyfanswm, bod tua 43,800 o ddiwrnodau wedi eu colli yn 2022-23, sy'n cyfateb i'r lefel uchaf a adroddwyd dros y degawd diwethaf, yn 2014-15. Roedd cyfanswm y diwrnodau salwch yn 2022-23 wedi eu rhannu'n fras rhwng absenoldebau tymor byr (51%) ac absenoldebau tymor hir (49%). Ni fu 48% o staff yn absennol o gwbl oherwydd salwch yn 2022-23, y lefel isaf ers 2017-18.

[59] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, 12 Chwefror 2024
[60] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 139
[61] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 139

**Tabl 2: Absenoldeb oherwydd Salwch yn Llywodraeth Cymru, 2013-14 i 2022-23**[62]

| | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19*** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 19,156 | 20,631 | 18,967 | 17,354 | 17,818 | 16,545 | 18,321 | 12.,103 | 21,018 | 22,329 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 19,534 | 23,161 | 23,977 | 22,876 | 22,627 | 23,840 | 17,291 | 14,315 | 20,109 | 21,408 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (cyfnod o 12 mis)** | 38,690 | 43,792 | 42,944 | 40,230 | 40,445 | 40,385 | 35,612 | 26,418 | 41,127 | 43,737 |
| % y staff heb ddim absenoldeb salwch | 43% | 41% | 42% | 44% | 44% | 49% | 50% | 68% | 53% | 48% |
| Cyfartaledd y dyddiau gwaith a gollwyd | 7.1 | 7.9 | 8.1 | 7.8 | 8.0 | 7.9 | 6.9 | 5.1 | 7.6 | 8.0 |

**75.** Dywed Llywodraeth Cymru fod COVID-19 wedi parhau i effeithio ar lefelau salwch yn ystod 2022-23, gan gyfrif am 13% o'r holl absenoldebau.[63] Cynyddodd lefelau salwch am resymau yn gysylltiedig â'r 'system resbiradol' (gan gynnwys annwyd) 43% yn ystod y flwyddyn, a allai guddio rhagor o achosion COVID-19 o ystyried tebygrwydd symptomau'r rhai sydd ag achosion ysgafn.[64]

**76.** Er ei bod yn cyfeirio at ei harferion Iechyd a Llesiant a'i Pholisi Rheoli Presenoldeb, nid yw'n mesur faint o ddyddiau a gollwyd am resymau'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, nac unrhyw reswm heblaw COVID-19 neu salwch system resbiradol.[65]

**77.** Gwnaethom ofyn pam bod nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yn 2022-23 ar ei uchaf ers 2014-15 a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wrthym fod y tueddiadau

[62] Sylwer* Mae hyn yn cynrychioli'r data absenoldebau oherwydd salwch a adroddwyd yng Nghyfrifon 2022-23, sy'n wahanol i'r hyn a adroddwyd ar gyfer 2018-19 yng Nghyfrifon 2019-20. Ffynhonnell: **Welsh Government Consolidated Accounts 2015-16 (tudalen 45), 2016-17 (tudalen 52), 2019-20 (tudalen 93) a 2022-23 (tudalen 187).**
[63] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 186
[64] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 186
[65] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 186

sy'n cael eu gweld yn debyg i'r rhai ar draws y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus ehangach.[66] Mae'r rhesymau dros hyn yn ddeublyg: absenoldeb salwch tymor hir, ac, yn benodol, ynghylch iechyd meddwl; ac, yn 2022-23, salwch tymor byr yn ymwneud â COVID-19.[67]

**78.** Clywsom fod llesiant y gweithlu o'r pwys mwyaf, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu mesurau rhagweithiol i gefnogi llesiant gweithwyr.[68] Mae'r rhain yn cynnwys mabwysiadu strategaeth iechyd, llesiant a diogelwch newydd (a gyhoeddwyd y llynedd), meddygfeydd iechyd meddwl a llesiant a chymorth cyngor achos rhagweithiol gan y tîm Adnoddau Dynol. Ar ben hynny, mae gan Lywodraeth Cymru raglen sefydledig ar gyfer Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.[69]

**79.** Wrth edrych ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu bwrdd sicrwydd iechyd a llesiant a diogelwch fel y gall edrych ar fesur mwy rhagweithiol ar draws y broses o drefnu ei risgiau iechyd, diogelwch a llesiant.[70] Ychwanegodd y Prif Swyddog Gweithredu bod llawer mwy y gallant ei wneud ac y byddant yn ei wneud yn y gofod hwn.[71]

## Ein barn

**80.** Rydym yn pryderu am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru gyda Local Partnerships a'i defnydd ohonynt. Rydym yn siomedig na chyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar benderfyniad i gofnodi ei chaffaeliad, ym mis Ionawr 2018, o ddaliad 5% yn y cwmni. Credwn y dylai'r penderfyniad hwn fod wedi bod yn fwy tryloyw ac agored.

**81.** Credwn hefyd y dylai fod mwy o dryloywder o ran defnydd Llywodraeth Cymru o Local Partnerships, a chwmnïau eraill y mae'n caffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'eithriad Teckal' neu Weithred Tendro Sengl. Roeddem yn synnu nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr ganolog o gyrff y gall gaffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'eithriad Teckal' neu restr o gontractau a gaffaelwyd drwy'r dull hwnnw.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru lunio a chadw rhestr o gyrff y gall gaffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'eithriad

[66] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 133
[67] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 133
[68] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 135
[69] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 135
[70] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 135
[71] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 136

Teckal' neu restr o gontractau a gaffaelwyd drwy'r dull hwnnw a'i bod yn rhannu'r rhestr hon â'r Pwyllgor unwaith y mae wedi'i chwblhau.

**Argymhelliad 5.** Tudalen Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor hwn wybodaeth am ei defnydd o Local Partnerships, gan gynnwys gwariant a ysgwyddwyd, rhestr o gontractau a natur y gwasanaethau/gwaith a gaffaelwyd oddi tanynt.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r meini prawf y mae'n eu mabwysiadu ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau a pham na chyhoeddwyd adroddiad o'r fath pan benderfynodd gaffael daliad 5 y cant yn Local Partnerships.

**Argymhelliad 7.** Tudalen Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a yw'n caffael gwasanaethau ymgynghori a gwaith prosiect arall drwy Weithredoedd Tendro Sengl ac, os felly, yn darparu manylion am yr achosion lle mae wedi gwneud hynny.

**82.** Nodwn fod sawl ffactor wedi cynyddu'r pwysau ar gapasiti gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir gyda rhai o'r problemau capasiti a ddisgrifiwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol fel rhai sy'n deillio o raglen ddeddfwriaethol lawn a dwys. Rydym yn nodi mai ystyr hyn yw bod rhywfaint o arbenigedd wedi'i ddefnyddio o fewn yn y sefydliad.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y meysydd lle mae wedi nodi pwysau o ran sgiliau a chapasiti gweithlu ac yn egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys esbonio sut y bydd adnoddau'n cael eu hailddyrannu a'u blaenoriaethu i fodloni'r pwysau hyn.

**83.** Credwn ei bod yn bwysig i Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru fod yn meddwl yn y tymor hwy am yr heriau o ran sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r gallu cywir ar waith i fodloni gofynion cynyddol a meysydd blaenoriaeth sy'n newid. Bydd cynllunio hirdymor o'r fath yn helpu i sicrhau bod llif o dalent i sicrhau sgiliau ac arbenigedd angenrheidiol ar gyfer y dyfodol a bydd Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un yn hanfodol i hynny.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynlluniau ac amcanion manwl i'r Pwyllgor o ran sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r cysyniad o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un a'r mentrau sydd ganddi ar waith i ddatblygu a rhannu arbenigedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

**84.** Rydym yn bryderus am y cynnydd o ran absenoldebau salwch staff yn Llywodraeth Cymru. Roedd dau brif reswm dros hyn: absenoldeb salwch tymor hir; a salwch tymor byr yn ymwneud â COVID-19.

**85.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rheoli absenoldebau staff yn effeithiol wrth sicrhau llesiant staff. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau absenoldeb staff ond nid yw'n mesur sawl diwrnod a gollwyd oherwydd rhesymau iechyd meddwl. Er mwyn sicrhau bod yr absenoldebau hyn yn cael eu rheoli'n briodol, credwn y dylai'r cyfrifon gynnwys dadansoddiad manylach o’r rhesymau dros absenoldeb salwch.

**86.** Er ein bod yn nodi bod y cynnydd mewn absenoldeb salwch yn cyd-fynd â thuedd ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus, clywsom fod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth cyngor achos rhagweithiol gan y tîm Adnoddau Dynol i staff sy'n sâl. Clywsom bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu bwrdd sicrwydd iechyd a llesiant a diogelwch fel y gall edrych ar fesur(au) mwy rhagweithiol. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrthym bod llawer mwy y gallant ei wneud ac y byddant yn ei wneud yn y gofod hwn. Byddem yn croesawu gwybodaeth am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd yn absenoldeb staff oherwydd salwch, y cymorth sy'n cael ei ddarparu i staff, yn ogystal ag am rôl y bwrdd sicrwydd iechyd a llesiant a diogelwch a pha wahaniaeth y disgwylir i hyn ei gael.[72]

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei chyfrifon, dadansoddiad o ddata absenoldeb staff er mwyn gwahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl a mathau eraill o salwch.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y camau y mae swyddogion yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran absenoldebau salwch a’r cymorth sy'n cael ei ddarparu i staff, yn ogystal â’r amcanion ar gyfer sefydlu bwrdd sicrwydd iechyd a llesiant a diogelwch a’r effaith y bwriedir i hyn ei chael.

**87.** O ran edrych y tu hwnt i'r flwyddyn a gwmpesir gan y Cyfrifon, nodwn fod Llywodraeth Cymru, fel y rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25 a thu hwnt. Byddwn yn parhau i graffu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i bwysau o’r fath a’r effaith ar ei staff yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2023-24 Llywodraeth Cymru.

[72] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 136

# 4. Llywodraeth Cymru 2025

## Cynllun tair blynedd

**88.** Yn ystod 2022-23, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol 'Llywodraeth Cymru 2025' ('LlC2025'), sef "cynllun tair blynedd ar gyfer datblygu'r sefydliad er mwyn iddo fod yn addas at y diben yn y byd sydd ohoni ar ôl y pandemig ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE", gan gynorthwyo Gweinidogion yn fwy effeithiol a chyflawni ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghymru o fewn cyd-destun ariannol a byd-eang cynyddol heriol.[73]

**89.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2022-23 dywedodd, erbyn mis Rhagfyr 2025, ei fod eisiau gwneud yr hyn a ganlyn:

1. Bod â'r diwylliant, y sgiliau, y galluogrwydd a'r ffyrdd o weithio i gyflawni ar gyfer Cymru mewn cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynyddol heriol.
2. Gwreiddio dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru fel y gall ddarparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy o safon uchel i ddinasyddion Cymru.
3. Gwella'n barhaus a chyflawni'n effeithlon, gan arddangos pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
4. Trawsnewid y ffordd y mae'n gweithio drwy dechnoleg ddigidol.
5. Defnyddio ei hystâd i gefnogi gwasanaeth cyhoeddus Cymru mewn ffordd ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon. [74]

**90.** Ychwanegodd mai "Llywodraeth Cymru 2025 fydd y catalydd ar gyfer ysgogi'r newidiadau a'r gwelliannau y bydd eu hangen arnom er mwyn cyflawni ein nodau".[75]

## Cynnydd a newidiadau i'r rhaglen

**91.** Mae uchafbwyntiau'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2023 yn cynnwys:

- trefniadau dyrchafu mewnol newydd.

[73] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 3
[74] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 66
[75] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 67

- ailddylunio ei swyddfeydd i gefnogi trefniadau gweithio hybrid.
- camau olaf y broses o brofi'r systemau Adnoddau Dynol newydd.
- cynlluniau peilot i archwilio cydweithio digidol allanol.
- gwaith i sefydlu fframwaith dirprwyaethau'r gweithlu.
- cyhoeddi Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd Llywodraeth Cymru.[76]

**92.** Yng Nghyfrifon 2022-23, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, "Rwy'n fodlon ar y cynnydd cynnar rydym wedi'i wneud, yn enwedig o ystyried yr amgylchedd heriol rydym yn gweithredu ynddo".[77]

**93.** Gofynnon ni i'r Ysgrifennydd Parhaol sut roedd Llywodraeth Cymru 2025 yn sicrhau bod y sefydliad yn addas i'r diben.[78]

**94.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrthym, o ystyried yr heriau cyllidebol mae'n eu hwynebu, fod rhaglen Llywodraeth Cymru 2025 wedi cael ei hailffocysu i dair ffrwd waith[79]. Mae un o'r rhain, 'newid siâp' yn edrych ar y sgiliau, y gallu a'r blaenoriaethau o fewn y sefydliad, a sicrhau bod y rhain yn cael eu ffocysu yn y meysydd cywir.[80]

**95.** Mae Newid Maint, un o'r ffrydiau gwaith eraill, yn edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru ymdopi gyda llai o staff.[81] Ynglŷn â'r ffrwd waith hon, dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun ymadael gwirfoddol gyda'r disgwyliad y gallai tua 150 o staff adael y sefydliad.[82]

## Ein barn ni

**96.** Mae swyddogion wedi dweud mai "Llywodraeth Cymru 2025 fydd y catalydd ar gyfer ysgogi'r newidiadau a'r gwelliannau y bydd eu hangen arnom er mwyn cyflawni ein nodau".[83] O ystyried ei phwysigrwydd, rydym yn bryderus o glywed bod y rhaglen wedi ei hailffocysu.

[76] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 67
[77] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, tudalen 2
[78] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 119
[79] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 128
[80] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 127 - 128
[81] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 144
[82] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 146
[83] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23 , tudalen 67

**97.** Fodd bynnag, nid oedd y newidiadau i gynlluniau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen yn glir o'r dystiolaeth. O ystyried hynny, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru o ganlyniadau symleiddio'r rhaglen, a beth yw ystyr hyn ar gyfer ei chynlluniau i newid a gwella'r sefydliad.

**98.** Byddem hefyd yn croesawu diweddariad am gynnydd y gwaith o dan y rhaglen, yn benodol ar sgiliau, gallu a blaenoriaethau ei gweithlu, ynghyd â thystiolaeth bellach i ddangos sut mae'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â heriau capasiti.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi i'r Pwyllgor ei hasesiad o effaith symleiddio ei rhaglen Llywodraeth Cymru 2025, a beth yw goblygiadau hyn i'w chynlluniau i newid a gwella'r sefydliad.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad am gynnydd y gwaith o dan raglen Llywodraeth Cymru 2025, yn benodol ar sgiliau, gallu a blaenoriaethau ei gweithlu, ynghyd â thystiolaeth bellach i ddangos sut mae'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â heriau capasiti.

**99.** Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru, ar adeg ein sesiwn graffu, wedi lansio cynllun ymadael gwirfoddol gyda'r disgwyliad y gallai tua 150 o staff wneud cais i adael y sefydliad.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau ei chynllun ymadael gwirfoddol diweddar, gan gynnwys nifer y staff sydd wedi gwneud cais i adael y sefydliad a'r achosion a gymeradwywyd, yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau a'r arbedion disgwyliedig sy'n deillio o'r cynllun.

**Argymhelliad 15.** Gan nodi cynllun ymadael gwirfoddol diweddar Llywodraeth Cymru a'r posibilrwydd o golli profiad ac arbenigedd o fewn y gweithlu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae'r risgiau cysylltiedig yn cael eu lliniaru.

# 5. Yr Uwch Wasanaeth Sifil

**100.** Ym mis Ebrill 2022, newidiodd yr Ysgrifennydd Parhaol uwch strwythur Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno rôl y Prif Swyddog Gweithredu, a fyddai'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth i gyfarwyddiaethau gan gynnwys pobl a lleoedd, cyllid, a gwasanaethau digidol a dadansoddol. Ymgymerodd Tim Moss â'r rôl ar 1 Medi 2022.[84]

**101.** Gwnaethom nodi bod creu rôl y Prif Swyddog Gweithredu wedi bod yn uchelgais i Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog ar y pryd, ers dechrau'r Chweched Senedd o leiaf. Ym mis Mai 2021, dywedodd wrth y Senedd y byddai penodi Prif Swyddog Gweithredu yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Parhaol helpu i sicrhau bod y rhaglen lywodraethu'n llwyddo.[85]

**102.** Yn dilyn hynny, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi gwneud newidiadau pellach i'r strwythur. Yn 2023-24, sefydlodd y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, drwy uno'r Grŵp Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol â'r Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg.

**103.** Gwnaethom nodi'r newidiadau hyn a gofyn i'r swyddogion pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud o ran rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

**104.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod y Prif Swyddog Gweithredu wedi darparu rôl arweinyddiaeth gefnogol o fewn y sefydliad ar wasanaethau corfforaethol craidd a goruchwylio cyllid a'r gweithlu. Clywsom fod hyn wedi caniatáu i'r Ysgrifennydd Parhaol dreulio mwy o amser ar y rôl ymgynghorydd i'r Prif Weinidog a'r Cabinet, yn enwedig ar rai o'r meysydd polisi anoddach y byddai'r Cabinet yn disgwyl cael cyngor arnynt.[86] Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *'I have been able to apply more leadership on examples such as the legislative programme that Welsh Government discharges, which does require a lot of time and attention, and it has allowed me, I hope, to think about the strategic outlook of Welsh Government as an organisation, not just as a mechanism that supports Ministers'.*[87]

[84] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23 , tudalen 174
[85] Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, 19 Mehefin 2021, paragraff 28
[86] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 57
[87] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 57

## Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil

**105.** Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2021-22[88], gwnaethom nodi'r gwelliannau arfaethedig i'r fframwaith ar gyfer dirprwyaethau gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag Uwch Weision Sifil, yn dilyn Adroddiad Budd y Cyhoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Taliad i gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth'89 (Medi 2022). Roedd y rhain yn cynnwys:

- Diweddaru canllawiau recriwtio ac adnoddau yr Uwch Wasanaeth Sifil gyda mapiau proses, dirprwyaethau a llwybrau cymeradwyo clir mewn perthynas â chyflogau yr Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys meysydd megis ymddeoliad rhannol a rhyngweithio â pholisïau Llywodraeth Cymru pan all fod gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru.
- Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i sicrhau mwy o eglurder ynghylch y rôl a'r cylch gwaith, ac adolygu'r templed a'r broses Achos Busnes i wella eglurder cyngor adnoddau dynol a ddarperir i'r Pwyllgor.
- Gweithredu fframwaith Telerau ac Amodau'r Ysgrifennydd Parhaol, parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet i ddiffinio'n well rolau a chyfrifoldebau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru a datblygu nodiadau ffeil safonol i sicrhau bod trefniadau sy'n cynnwys Swyddfa'r Cabinet yn cofnodi'r holl gymeradwyaethau perthnasol a pholisïau a roddir ar waith.

**106.** Mewn perthynas â'r pwynt bwled olaf hwn, yn ei hymateb i'r adroddiad ar Gyfrifon 2020-21 (Mai 2023)[90], nododd Llywodraeth Cymru yn flaenorol nad oedd Swyddfa'r Cabinet wedi dechrau'r adolygiad o'i pherthynas ag Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban eto.

**107.** Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2020-21, gwnaethom bwysleisio pa mor bwysig ydyw bod y gwaith yn y maes hwn yn cael ei wneud a'i gwblhau'n briodol ac yn brydlon. Fel y cytunwyd bryd hynny, gwnaethom ailedrych ar hyn yn ystod ein

---

[88] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon – Llywodraeth Cymru 2021-22, Hydref 2023
[89] Adroddiad Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth,
[90] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21

gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23 Llywodraeth Cymru a gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**108.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol ei fod wedi gohebu â ni ar y materion hyn ar sawl achlysur a'i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r gwelliannau gofynnol.[91] Cadarnhaodd fod y camau hyn wedi cael eu goruchwylio gan Bwyllgor Taliadau Llywodraeth Cymru, gan ychwanegu:

> *'There are mechanisms that we've put in place, and you may recall us describing last year the protocol that is now in place should there be any requests for part-time working from senior civil service members. We're very clear; there's a pathway to follow in order to decide if that is a decision that makes sense for the organisation alongside the individual. So, those mechanisms are in place'.*[92]

**109.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod mecanweithiau fframwaith dirprwyo eraill ar waith ar draws yr uwch wasanaeth sifil i geisio cydbwyso'r oruchwyliaeth ganolog â rhoi caniatâd i wneud penderfyniadau. Roedd yn cydnabod y risg y bydd popeth yn gorfod cael ei wneud drwy ddull pwyllgor a bod angen galluogi rheolwyr llinell i deimlo eu bod yn gallu, gyda'u profiad, gyflawni penderfyniadau ar ran y sefydliad.[93]

**110.** Dywedwyd wrthym hefyd fod trefniadau ar gyfer comisiynydd y gwasanaeth sifil, sy'n goruchwylio prosesau penodi a recriwtio Llywodraeth Cymru, yn rhoi sicrwydd pellach.[94]

## Datganiad Polisi Tâl

**111.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2021-22[95], argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth erbyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r Cyfrifon ar gyfer yr un flwyddyn ariannol. Ychwanegodd y dylai hyn ddechrau gyda'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023 a'r Cyfrifon ar gyfer 2022-23. Bydd hyn yn

[91] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 67
[92] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 67
[93] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 68
[94] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 69
[95] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon Comisiwn y Senedd 2021-22, Rhagfyr 2022

sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu craffu ar y Datganiad Polisi Tâl bob blwyddyn, ochr yn ochr â'r cyfrifon.

**112.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, gan ychwanegu:

> *'Mae Datganiad Polisi Tâl 2023 bellach wedi'i gwblhau ac fe gytunwyd arno yn fewnol ac mae'n mynd drwy'r broses gyfieithu a dylunio. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn diwedd mis Chwefror 2024.'*[96]

**113.** Nodwyd nad oedd y Datganiad Polisi Tâl wedi'i gyhoeddi tan 18 Mawrth 2024, dim ond dau ddiwrnod cyn i'r Pwyllgor gynnal ei sesiwn dystiolaeth lafar. Gofynnon ni beth achosodd yr oedi wrth gyhoeddi.

**114.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn rhoi'r gorau i'w swydd yn y flwyddyn, fod dryswch ynghylch pwy fyddai'n cymeradwyo'r polisi tâl. Yn y pen draw, gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, oherwydd amryfusedd, ni chafodd y ddogfen ei chyhoeddi yn ôl y cyfarwyddyd, gan achosi'r oedi. Ymddiheurodd yr Ysgrifennydd Parhaol am hyn.[97]

## Ymddeoliad rhannol

**115.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2021-22 Llywodraeth Cymru, gwnaethom nodi bod cais y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg am ymddeoliad rhannol wedi cael ei gymeradwyo. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cymryd camau ychwanegol i'r broses gymeradwyo, yn dilyn Adroddiad Budd y Cyhoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru am y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Roedd hyn er mwyn sicrhau llywodraethu a thryloywder da[98]. Er bod nifer y ceisiadau am ymddeoliad rhannol yn fach iawn[99], roedd Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau ei bod yn cynnal hyblygrwydd i'r holl staff, ni waeth ar ba raddfa y maent.

**116.** Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch pwy gymeradwyodd gais y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg am ymddeoliad rhannol. Hefyd, gwnaethom ofyn am sicrwydd nad yw'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â threfniadau gweithio'r cyn-

[96] [96] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, 12 Chwefror 2024
[97] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 84
[98] Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2024, paragraff 97
[99] Cofnod y Trafodion, 2 Mawrth 2024, paragraff 97

Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 yn gymwys yn yr achos hwn. Gofynnom am ragor o wybodaeth am y rôl hon, gan nodi ei bod yn cael ei chyflawni'n rhan-amser [Argymhelliad 9].

**117.** Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth hon yn gyfrinachol.

**118.** Yng Nghyfrifon 2022-23, gwnaethom nodi bod dau uwch swyddog wedi gwneud cais am ymddeoliad rhannol a bod eu ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol faint o'i uwch dîm oedd wedi ymddeol yn rhannol, sut roedd yn rheoli'r gostyngiad mewn capasiti ac yn sicrhau bod triniaeth yn gyfartal ag aelodau eraill o'r uwch dîm.

**119.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y cyd-destun newidiol ar gyfer gweithio rhan-amser ac ymddeoliad rhannol sy'n digwydd o fewn gwasanaethau cyhoeddus a'r gwasanaeth sifil wrth i bobl fynd yn hŷn a gweithio'n hwyrach yn eu bywydau.[100] Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> *'We have nine senior civil servants out of our senior civil servant body who are partially retired [...] that's out of 217 people who we have in the senior civil service, so it's a small percentage. We have looked at the arrangements elsewhere, not least within the UK civil service, and there seem to be very similar arrangements in place.'*[101]

**120.** Ychwanegodd, ar draws y sefydliad cyfan, fod cyfanswm o 144 o staff wedi ymddeol yn rhannol. Nododd fod y sefydliad yn debygol o weld cynnydd mewn ceisiadau ymddeol rhannol gan fod unigolion yn gallu cael mynediad at drefniadau pensiwn yn gynharach a pharhau i weithio. Wrth fyfyrio ar y pethau cadarnhaol ynglŷn â hyn, dywedodd y gallai'r sefydliad gynnig hyblygrwydd wrth gadw gwybodaeth a phrofiad.[102]

## Ein barn ni

**121.** Mewn perthynas â'r Datganiad Polisi Tâl, rydym yn siomedig na chafodd ei gyhoeddi mewn pryd ar gyfer ein gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru. Gobeithiwn y bydd y datganiad ar gyfer y cyfnod

[100] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 76
[101] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 77
[102] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 78

ariannol 2023-24 yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd y bydd Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn cael eu gosod gerbron y Senedd.

**122.** Rydym yn croesawu dull hyblyg Llywodraeth Cymru o alluogi ymddeol yn rhannol ac yn enwedig bod yr hyblygrwydd hwn yn ymestyn i staff ar bob gradd yn y sefydliad. Mae'n gadarnhaol clywed bod hyn yn helpu i gadw gwybodaeth a phrofiad ond hoffai'r Pwyllgor ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r newidiadau i rolau, cyfrifoldebau a chapasiti o ganlyniad i'r gostyngiad yn yr oriau gwaith pan fydd staff yn ymddeol yn rhannol. Mae’r Pwyllgor hefyd yn dymuno archwilio’r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod yna gyflenwad o dalent. Hoffem drafod y rhain a dull Llywodraeth Cymru o gynllunio olyniaeth yn ystod ein gwaith craffu ar gyfrifon 2023-24.

# 6. Colledion a thaliadau arbennig

## Colledion

**123.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru adrodd am 131 o golledion yn 2022-23, gyda gwerth cyfanredol o £13.2 miliwn (2021-22: 150 o golledion, gwerth o £12.3 miliwn)[103]. Roedd gwerth chwech o'r rhain yn unigol yn fwy na £300,000 ac, fel sy'n ofynnol dan delerau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar wahân ar y rhain yn ei chyfrifon.[104] Mae'r rhain yn cynnwys dileu stociau cyffuriau heb fod yn gysylltiedig â COVID-19 sydd wedi dod i ben (£1.5 miliwn), meddyginiaethau COVID-19 a phrofion llif unffordd (£1.3 miliwn) a dileu prosiectau ffyrdd (£5.7 miliwn). Rydym yn nodi gwybodaeth am y tair colled arall isod.[105]

### Y Grant prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau

**124.** Fe wnaeth camgymeriad wrth weinyddu'r Grant Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y Gwyliau arwain at £1.885 miliwn o ordaliad ar draws pob awdurdod lleol, ac adroddir amdano fel colled.[106] Digwyddodd hyn oherwydd bod y taliadau i awdurdodau lleol am weinyddu'r cynllun wedi eu gwneud ar "gyfradd uwch nag a fwriadwyd am gyfnod".[107]

**125.** Yn y Cyfrifon, dywed Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"... er gwaethaf cael eu gordalu, ni farnwyd bod lefel y ffi weinyddol a ddarparwyd yn afresymol am ddarparu cynllun o'r fath ar ranLlywodraeth Cymru a barnwyd ei fod yn daliad cymesur. O'r herwydd, barnwyd na fyddai ceisio adennill yr arian a gafwyd mewn camgymeriad yn briodol yn yr achos hwn ac y gallai achosi niwed ariannol."*[108].

**126.** Aiff ymlaen i ddweud ei bod wedi cryfhau canllawiau a phrosesau ar gyfer gweinyddu'r grant, gyda'r ffi gweinyddu yn cael ei hailbennu "ar y lefel briodol"[109].

[103] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 165
[104] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 165
[105] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 165
[106] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 148
[107] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 148
[108] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 148
[109] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 148

**127.** Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru ragor o fanylion, gan egluro'r hyn a ganlyn:

> *"When we looked at it in terms of potential recovery, the local authorities had actually obviously complied with the grant's terms and conditions. But also, when we looked at the administrative fee in terms of the work that was needed, it was actually felt that probably the higher figure was probably more realistic than the original figure. Because the original figure was set at the £5, not the £10, we felt that it was important to be transparent and report that through our losses statement"*[110].

**128.** Aeth ymlaen i ddweud, ar yr adeg y sefydlwyd y gronfa, fod cyfrifoldeb wedi ei rannu ar draws dwy gyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, roedd y cyfrifoldeb bellach yn eistedd gydag un gyfarwyddiaeth. Nododd hefyd, ers hynny, fod panel sicrwydd grantiau wedi'i sefydlu, yr ydym yn deall iddo gael ei sefydlu ym mis Medi 2018, gan egluro:

> *"…when we're looking at new schemes like this, or any other schemes across the Welsh Government, the panel is there to advise policy officials when they're putting grants in place, but they're also there to challenge certain issues. And one of the things that we have come to learn how to challenge is the administrative cost. We always ask about the administrative costs, as well as the other terms and conditions"*[111].

## Taliadau arbennig

**129.** Yn ystod 2022-23, cytunodd Llywodraeth Cymru ar daliad iawndal, gan gynnwys costau, o £1.3 miliwn mewn perthynas â "hawliad trydydd parti oherwydd damwain ffordd", gyda datgeliadau pellach yn cael eu gwahardd "ar sail braint gyfreithiol"[112]. Mae hyn yn cael ei gynnwys fel 'taliad arbennig' yng Nghyfrifon 2022-23.

[110] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 208
[111] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 209
[112] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 149

**130.** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol rywfaint o gyd-destun pellach (o fewn ffiniau'r cyfyngiadau braint gyfreithiol uchod):

> *"... one of the reasons that we were exposed to it is because, of course, Welsh Government owns and is responsible for the strategic road network in Wales...*
>
> *... the circumstances that are connected with the claim, they have been reviewed and considered. We've ensured that the lessons have been learned, and that's been fed back into the network maintenance programme. You were asking about how we are involved in it: because we are responsible for the road network"*[113].

## Ein barn ni

**131.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ei gonestrwydd wrth ddarparu rhagor o wybodaeth am y colledion a'r taliadau arbennig a wnaed yn ystod y flwyddyn. Bydd gennym ddiddordeb bob amser mewn archwilio materion fel y rhain yn fanwl, gan ei bod yn hanfodol bwysig bod y Pwyllgor hwn yn ceisio cael atebolrwydd am unrhyw golledion o gyllid cyhoeddus.

[113] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 212-213

# 7. Llywodraethu a Sicrwydd

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

### Rôl

**132.** Yn ei gyflwyniad i'r Cyfrifon, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:

> *"Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru (ARAC Llywodraeth Cymru) drwy gydol y flwyddyn fu parhau i roi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys Ei Fawrhydi."*[114]

### Papurau pwyllgor

**133.** Yn adroddiad blaenorol y Pwyllgor hwn, ailadroddwyd argymhelliad ein Pwyllgor a'n rhagflaenodd ar gyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi, o leiaf, yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghyd â chrynodeb o'r materion sy'n codi yn y cyfarfodydd[115].

**134.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddweud:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r argymhelliad a dderbyniwyd yn flaenorol i gyhoeddi Agendâu ARAC a chrynodeb o'r materion sy'n cael eu trafod. Mae effaith Covid, newidiadau mewn arferion gwaith ac ad-drefnu o fewn Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar waith Ysgrifenyddiaeth ARAC yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O'r herwydd nid yw cyhoeddi wedi cael ei flaenoriaethu."*[116].

**135.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu'n fuan, gan ddweud bod y cyfarfod ar gyfer

[114] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Blynyddol, tudalen 4
[115] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Llywodraeth Cymru, tudalen 51
[116] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Chwefror 2024

dilysu'r cofnodion yn cael ei gynnal y diwrnod canlynol, gyda'r cyhoeddiad i ddilyn yn fuan wedi hynny[117].

## Archwilio Mewnol

**136.** Yn 2022-23, cyhoeddodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru 42 adroddiad, gyda barn "sicrwydd cyfyngedig" wedi'i darparu ar gyfer 7 o'r adroddiadau hynny, a barn "dim sicrwydd" mewn 1 arall[118].

**137.** Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyfrifon 2021-22 Llywodraeth Cymru, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ychwanegol yn ei chyfrifon lle mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd o gwbl, yn ogystal â lle mae gwendidau sylfaenol wedi'u nodi[119].

**138.** Fodd bynnag, gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru ar y sail ei bod wedi cymharu'r wybodaeth yn ei chyfrifon â'r hyn a adroddwyd gan weinyddiaeth ddatganoledig eraill ac Adrannau Llywodraeth y DU. Daeth i'r casgliad ei bod eisoes yn datgelu mwy am ganlyniadau archwilio mewnol[120]. Roedd y llythyr yn awgrymu:

> *"Y canlyniad gorau yw bod yn ddigon agored a thryloyw yn y Datganiad Llywodraethiant ynghylch materion rheolaethau allweddol neu risgiau nad ydynt wedi'u rheoli'n effeithiol fel rhan o'r sylwebaeth lliniaru risg, yn hytrach na mwy o wybodaeth am weithgarwch archwilio mewnol. Efallai y bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i ddarllenydd bod materion rheolaethau o'r fath wedi'u datgelu pe bai'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn i'w gynnwys yn y sylwebaeth ar eu barn sicrwydd blynyddol."*

**139.** Mewn ymateb i gwestiwn am farn "sicrwydd cyfyngedig" o archwiliad mewnol yn ystod 2022-23, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor:

> *"… this is, again, a good example of how we use internal audit within the organisation, because whilst, on the one hand, it can give us*

[117] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 226
[118] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 140
[119]Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Llywodraeth Cymru, tudalen 51
[120] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Chwefror 2024

> *assurance and confidence on a range of corporate systems, the advantage of an internal audit service is for us to actually use it to point towards problems and issues in the organisation. From a limited assurance perspective, I'd almost be more worried if we had everything with 'substantial assurance' and 'reasonable', because I think it would mean that we're not looking for areas"*[121].

**140.** Dywedodd fod 18 o argymhellion wedi'u gwneud yn yr adroddiadau hynny, a bod 12 ohonynt wedi'u rhoi ar waith gan fodloni'r tîm archwilio mewnol.[122]. Mewn perthynas â'r argymhellion a oedd yn weddill, dywedodd:

> *"The six actions that remain are more complicated in some respects, because… they relate to the sustainable procurement area, and one of the things that we've got to work our way through there, in an organisation that is now budget constrained and with an inability to just appoint because we want to, because we have to manage within the money, if we want to meet some of the criteria that internal audit have highlighted on procurement…"*[123].

**141.** Mewn perthynas â'r adroddiad "dim sicrwydd," eglurodd ei fod yn ymwneud â chyflawni prosiectau a dull gweithredu'r sefydliad tuag at risg[124].

**142.** Wrth gael ei herio ynghylch a fyddai modd darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd ar yr adroddiadau hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn sicr bod modd i Lywodraeth Cymru fodloni'r pwyllgor ar ei argymhellion, er iddo ailadrodd ei farn bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o wybodaeth na sefydliadau cyfatebol[125].

**143.** Eglurodd fod agwedd rhannol amddiffynnol at y swyddogaeth archwilio fewnol ei hun, gan nodi ei fod yn bryderus eu bod yn teimlo y gallan nhw wneud y

[121] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 237
[122] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 238
[123] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 238
[124] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 239
[125] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 241

pethau hynny mewn ffordd agored a thryloyw yn fewnol yn y sefydliad, heb deimlo ei fod bob amser yn ymwneud â'r math o ddealltwriaeth allanol[126].

**144.** Fodd bynnag, ymrwymodd i adolygu a datblygu'r wybodaeth y maent yn ei darparu yn gyhoeddus, er mwyn rhoi mwy o foddhad i'r Pwyllgor[127].

## Risgiau

**145.** Nododd Llywodraeth Cymru fwy o wybodaeth am ei phroffil risg yng Nghyfrifon 2022-23 nag a fu'n digwydd fel arfer, yn dilyn cyfres o argymhellion gan y Pwyllgor hwn, yn ogystal â'r Pwyllgor a'i ragflaenodd. Mae Cyfrifon 2022-23 yn rhoi trosolwg o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan ddangos asesiad o'r sgôr risg weddilliol ar ddechrau a diwedd y flwyddyn[128]. Mae'n dangos[129]:

- Aseswyd bod risg gweddilliol effaith a thebygolrwydd 8 o'r 20 risg ar ddiwedd y flwyddyn yn 'uchel iawn' (sy'n cael eu hystyried yn 'risgiau critigol'). Roedd y rhain yn cynnwys 'Llesiant staff' a 'Phrosiectau a Rhaglenni Mawr', yr oedd y risg weddilliol ohonynt wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.
- Roedd pedair risg newydd wedi eu nodi yn ystod 2022-23: 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' (uchel iawn); 'Cymraeg' (uchel); 'Rhaglen Diwedd Cronfeydd Strwythurol' (uchel); a 'Llinellau Craidd y Cymoedd' (canolig). Mae'n rhoi rhagor o wybodaeth am y rhain.
- Roedd dwy risg wedi eu dileu: 'Strategaethau Trawsbynciol' (a aseswyd fel risg uchel ar ddechrau'r flwyddyn); a 'GDPR y Deyrnas Unedig' (a aseswyd fel risg ganolig ar ddechrau'r flwyddyn).

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd

**146.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol yng Nghyfrifon 2022-23 mai un o'i ffynonellau sicrwydd allweddol ar gyfer y sefydliad yw'r Holiadur Rheoli Mewnol Blynyddol (ICQ), sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Cyfarwyddwyr gwblhau hunanasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp[130].

[126] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 241
[127] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 242
[128] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 158
[129] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 159-162
[130] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 143

**147.** Mae'r Cyfrifon yn dangos bod mwyafrif y sgoriau ar gyfer 2022-23 yn gyson â'r asesiadau o 2021-22[131]. Fodd bynnag, mae'n sôn am "glwstwr o amrywiannau" mewn perthynas â:

- Cyflawni'r Prosiect – gostyngiad o 29% o ran lefel yr hyder;
- Rheoleiddio a Phriodoldeb – cynnydd o 41% o ran lefel yr hyder;
- Cwynion - cynnydd o 20% o ran lefel yr hyder.

**148.** Pan ofynnwyd iddo sut y dylid dehongli'r ffigur ar gyfer cyflenwi prosiectau, eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu, yn dilyn adolygiad o reoli prosiectau a rhaglenni yn 2022, arweiniodd rhai canfyddiadau at gynnydd mewn risg a ddylanwadodd ar yr holiadur rheoli mewnol[132]. Ymhelaethodd ar hyn, gan ddweud y canlynol:

> *"… it's an example of governance working, in terms of carrying out a review, understanding that, actually, the risks that we're facing are higher than we first thought, changing the risk register, getting further information through the ICQ process, and then actually putting a programme of work in place"[133].*

## Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

**149.** Cafodd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n nodi'r fframwaith ac egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol er budd y cyhoedd, ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Hydref 2018[134].

**150.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2021-22, dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei Chanolfan Ragoriaeth Llywodraethu Corfforaethol wedi dechrau adnewyddu'r canllawiau ym mis Ebrill 2021, a oedd i fod wedi dechrau yn ystod 2020 ond ei fod wedi cael ei ohirio "i ganolbwyntio ar flaenoriaethau COVID-19"[135]. Fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyfrifon 2021-22, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru,

[131] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 143
[132] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 234
[133] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Mawrth 2024, paragraff 235
[134] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Hydref 2018
[135] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 127

ynghyd â syniad o ba bryd mae'n debygol iddo gael ei gyhoeddi[136]. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r angen iddo gael ei ddiweddaru. Er hynny, mae'n ddogfen hir a chymhleth lle mae llawer o'r canllawiau sylfaenol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wrthi'n ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a byddwn yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf"*[137].

**151.** Mewn Adroddiad er Budd y Cyhoedd yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethiant yn Amgueddfa Cymru, nododd yr Archwilydd Cyffredinol anghysondeb rhwng trefniadau 'galw i mewn' Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chyrff hyd braich a'r canllawiau yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, y mae'n eu disgrifio fel rhai nad ydynt yn ffafriol i stiwardiaeth gadarn ar arian cyhoeddus[138].

**152.** Cytunodd y Pwyllgor ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru nodi dyddiad targed penodol ar gyfer cyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am eu cynnydd[139].

**153.** Gwnaethom ofyn am ddiweddariad ar hyn wrth graffu ar Gyfrifon 2022-23. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol gydnabod bod angen i'r sefydliad ymrwymo i'w adolygu. [140] Fodd bynnag, nid oedd swyddog yn gallu cadarnhau dyddiad erbyn pryd yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cwblhau'r adolygiad.[141]

**154.** Ar 3 Hydref 2024 cawsom linell amser ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'r diweddariad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r angen iddo gael ei ddiweddaru. Er hynny, gwnaethant nodi ei bod hefyd yn ddogfen hir a chymhleth lle mae llawer o'r canllawiau sylfaenol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

---

[136] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Llywodraeth Cymru, tudalen 51
[137] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Chwefror 2024
[138] Archwilio Cymru, Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru, tudalen 33
[139] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon: Amgueddfa Cymru 2021-22, Mehefin 2024
[140] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 229
[141] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2023, paragraff 231

**155.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y goblygiadau o ran adnoddau yn sgil diweddaru'r ddogfen ac ym mis Gorffennaf 2024 nododd Llywodraeth Cymru adnodd i gefnogi'r tîm i ymgymryd â'r dasg o ddiweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**156.** Daw'r llythyr i'r casgliad, o ystyried y goblygiadau o ran adnoddau, fod Cyfarwyddwr Cyllid newydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i nodi'r elfennau hanfodol hynny o fewn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n gofyn am ddiweddariad ar unwaith a bydd y rhain yn cael eu blaenoriaethu. Wrth i'r penodau hyn gael eu diweddaru, byddant yn cael eu cyhoeddi. Ar ben hynny, mewn amserlen ychydig arafach, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfen gyfan ac yn gobeithio y bydd y darn hwn o waith yn cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025.

## Ein barn ni

**157.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ar y manylion a ddarperir ar adroddiadau archwilio mewnol ac yn croesawu ei ymrwymiad i ymdrechu i gynnwys mwy o wybodaeth yn y cyfrifon amdanynt. Credwn fod cyfle i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl o ran ei thryloywder, ac mae hwn yn fater lle gall ddangos arfer gorau i sefydliadau eraill.

**158.** Ni fydd y Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol o'n gwaith craffu ar Gyfrifon 2021-22 Llywodraeth Cymru, o ystyried ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol. Byddwn yn adolygu hyn fel rhan o'n gwaith craffu ar gyfrifon yn y dyfodol.

**159.** Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ei hargymhellion blaenorol mewn perthynas â dogfennu risg sefydliadol ac rydym o'r farn bod hyn wedi galluogi gwell dealltwriaeth o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

**160.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am gyflymder y gwaith o ddiweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac mae wedi mynegi hyn ar wahân yn ein gwaith ar Amgueddfa Cymru. Ni fyddwn yn ailadrodd ein hargymhelliad yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i bwysleisio eto bod angen gweithredu i fynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad hwnnw, yn ogystal â chan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad 'Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru'.[142]

[142] Adroddiad Archwilio CymruTrefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru, Tachwedd 2023

O ystyried pwysigrwydd hyn, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn agos o ran diweddaru'r ddogfen.

# 8. Alldro yn erbyn y gyllideb – Incwm

**161.** Yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2018-19, nododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod incwm gwirioneddol Llywodraeth Cymru yn 2018-19 £281 miliwn yn llai na'i chyllideb o £1.2 biliwn - 23% o amrywiad o'r gyllideb[143]. Dywedodd fod incwm Llywodraeth Cymru wedi bod o leiaf 10 y cant yn is na'r gyllideb bob blwyddyn ers 2015-16, ac yn fwy nag 20 y cant yn is yn 2015-16 a 2018-19.[144]

**162.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol y rheswm dros hyn, sef mai cyllid yr Undeb Ewropeaidd oedd y rhan fwyaf o incwm Llywodraeth Cymru a'i bod yn anodd ac yn gymhleth rhagweld pryd y byddai hwnnw'n dod i law[145]. Ychwanegodd, pe bai Llywodraeth Cymru yn gosod ei chyllideb incwm yn rhy isel a bod mwy o arian na'r disgwyl yn dod i law gan yr Undeb Ewropeaidd, yna byddai'n ofynnol iddi ildio i Gronfa Gyfunol Cymru unrhyw swm a oedd yn ychwanegol at y gyllideb.[146]

**163.** At hynny, os bydd y symiau a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar ddiwedd y flwyddyn yn fwy na'r trothwy, byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddychwelyd cyllid i'r Trysorlys. Eglurodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol fod yn rhaid rheoli'r gyllideb yn ofalus i liniaru'r risg o golli incwm i Gymru:

> *"Setting the budget high makes sure that we don't lose money that we could spend on Welsh priorities. And, again, it's a balance between setting it realistically high and not setting it so low that we then breach it and can't use the money for Wales."*[147]

**164.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2022-23, noda Llywodraeth Cymru mai £1.439 biliwn oedd yr incwm a oedd o fewn cwmpas yr incwm, sy'n fwy na'r swm a awdurdodwyd gan y Senedd (£1.375 biliwn). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod 'incwm gormodol' "i'w briodoli i incwm nad yw'n arian parod, nid oes unrhyw dderbyniadau arian dros ben i'w hildio"[148].

---

[143] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020
[144] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020
[145] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, paragraff 34
[146] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, paragraff 35
[147] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, paragraff 36
[148] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23 , tudalen 188

**165.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn egluro fel a ganlyn:

> *"Mae gwarged incwm y cwmpas yn ymwneud yn bennaf â Benthyciadau i Fyfyrwyr (gwarged o £96m). Mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â llog ychwanegol a gafodd ei gyfalafu oherwydd cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn ystod y flwyddyn ariannol."*[149]

**166.** Ar ôl nodi sylwadau'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru yn gosod ei chyllideb ar gyfer incwm yn uchel er mwyn osgoi colli'r incwm i Gymru, gwnaethom ofyn pam na aeth y cronfeydd i Gronfa Gyfunol Cymru pan aeth ei hincwm ar gyfer 2022-23 y tu hwnt i'r gyllideb.

**167.** Eglurodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru na ddychwelodd Llywodraeth Cymru unrhyw arian i Gronfa Gyfunol Cymru yn yr achos penodol hwn gan fod y gwarged yn cael ei sbarduno gan incwm nad yw'n arian parod, ac yn enwedig yr hyn sy'n ymwneud â benthyciadau myfyrwyr. Clywsom fod hwn yn ddigwyddiad eithaf anarferol yn deillio o'r cynnydd sydyn mewn cyfraddau llog yn ystod ail hanner y flwyddyn. Dywedodd:

> '… the student loan model estimates the interest that we're due, going forward, and it tracks against the retail price index. So, what happened here was, when we were looking at the model, in terms of the non-cash interest that we had to accrue, going forward, we did see in that particular year quite a large increase in the interest rates during the year. I think they went from about 1.5 per cent to 9 per cent. So, that meant, in the latter half of the year, we saw this large increase in the potential interest that we had to accrue within the accounts, going forward.'[150]

[149] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23 , tudalen 188
[150] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 247

# 9. Adrodd am Berfformiad

**168.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2021-22, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth mae'n ei chynnwys yn y cyfrifon am ei Fframwaith Perfformiad, oherwydd heb dargedau ar gyfer mesurau penodol, a heb sylwadau arnynt, nid yw'n bosibl deall sut mae Llywodraeth Cymru yn perfformio [Argymhelliad 17].

**169.** Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn adolygu ei Fframwaith Perfformiad i sicrhau ei bod yn "gwneud y defnydd gorau o'r data sydd gennym i gefnogi a gwella perfformiad sefydliadol Llywodraeth Cymru, ar draws yr ystod amrywiol o weithgareddau a gyflawnir gan y sefydliad."[151] Hefyd, dywedodd ei bod yn:

> *'… ystyried y ffordd orau o fynd ati i gyhoeddi ein data yn allanol, er mwyn sicrhau y gellir cyfleu ystod a chymhlethdod yr wybodaeth berfformiad a gynhwysir yn ein hadroddiadau'n glir mewn fformat hygyrch a hawdd ei ddeall.'*

**170.** Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ddwywaith y flwyddyn i'w Bwrdd am y Fframwaith Perfformiad.[152] Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2022-23, mae'n dweud bod y trydydd cylch blynyddol o adrodd wedi cael ei gwblhau yn 2022-23. Dywedwyd yng nghofnodion cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023:

> *'Gan sôn am y ffaith mai dyma'r trydydd cylch adrodd, gofynnodd Gareth [Lynn, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg] a yw'r ymarfer yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r sefydliad ar gyfer asesu ei berfformiad, ac awgrymodd efallai mai nawr fyddai'r amser iawn i adolygu a mireinio'r broses. Croesawodd Sharon [Cross] yr awgrym, gan gytuno bod y fframwaith yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr a chanfyddiadau staff ar hyn o bryd, ac ychwanegodd y byddai angen buddsoddi er mwyn cynnwys adborth allanol. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosibl cynnwys cynnal arolygon sydyn rheolaidd o uwch-randdeiliaid penodol.*[153]

[151] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, 12 Chwefror 2024
[152] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2022-23 , tudalen 56
[153] Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru - 14 Gorffennaf 2023, paragraff 3.8

**171.** Gan nodi ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 i'n hadroddiad ar Gyfrifon 2021-22, a ddywedodd ei fod yn adolygu ei Fframwaith Perfformiad, gofynnon ni i swyddogion beth roedden nhw'n ei weld fel cyfyngiadau'r fframwaith presennol wrth roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y sefydliad i asesu ei berfformiad.

**172.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu, sy'n arwain yr adolygiad, fod y fframwaith perfformiad presennol yn adolygiad cynhwysfawr o berfformiad y sefydliad[154] a'i fod yn cynnwys 23 o feysydd penodol. Er ei fod yn rhoi trosolwg manwl o'r sefydliad, dywedodd y gall ei natur gynhwysfawr fod yn anfantais. Mae hyn o ran yr adnoddau sydd ei angen arno ac mae'n fframwaith sy'n edrych yn ôl[155] wrth adrodd ar berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol (ac yn gynharach). Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu fod hyn yn cyfyngu ar ei allu i helpu Llywodraeth Cymru i ysgogi perfformiad yn y sefydliad.[156]

**173.** Er mwyn mynd i'r afael â hyn, eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod Bwrdd Gweithredol Llywodraeth Cymru wedi ystyried papur yn ddiweddar i adolygu'r fframwaith perfformiad ac i edrych ar opsiynau eraill wrth symud ymlaen. Cytunwyd y dylai'r sefydliad ddefnyddio dull mwy cytbwys tebyg i gerdyn sgorio o adrodd ar berfformiad. Byddai hyn yn edrych ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws sawl elfen wahanol o'r cerdyn sgorio cytbwys.[157]

## Ein barn ni

**174.** Rydym yn croesawu adolygiad Llywodraeth Cymru o'i fframwaith perfformiad a'i chydnabyddiaeth bod angen dull gwahanol i helpu i ysgogi perfformiad. Rydym yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu dull cerdyn sgorio cytbwys ond nid ydym yn glir sut y bydd y dull hwn yn gwella'r ffordd o adrodd ar berfformiad.

**175.** Rydym hefyd yn nodi ei bod wedi cymryd amser hir i Lywodraeth Cymru gyrraedd y pwynt hwn. Rydym wedi codi materion ynghylch adrodd ar berfformiad yn y cyfrifon, fel y gwnaeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Nodwn y sylwadau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023 a chadarnhad yr Ysgrifennydd Parhaol, ym mis Chwefror 2024, fod y fframwaith perfformiad yn cael ei adolygu. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad o'i fframwaith perfformiad, gan gynnwys y cwmpas, y

[154] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 189
[155] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 189
[156] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 189
[157] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 189

fethodoleg a'r amserlen, yn ogystal â'r wybodaeth y mae swyddogion yn disgwyl ei chynnwys am y fframwaith perfformiad diwygiedig yn y cyfrifon.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad o'i fframwaith perfformiad a’r gwaith o ddatblygu dull cerdyn sgorio cytbwys o ran adrodd ar berfformiad, gan gynnwys y cwmpas, y fethodoleg a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad, yn ogystal â pha wybodaeth y mae swyddogion yn disgwyl ei chynnwys am y fframwaith perfformiad diwygiedig yn y cyfrifon.

# 10. Gweithredu argymhellion y Pwyllgor

**176.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2021-22, nododd y Pwyllgor ei bod hi'n "destun gofid bod y Pwyllgor wedi teimlo'r angen i ailadrodd pedwar argymhelliad a wnaed i Lywodraeth Cymru wrth graffu ar gyfrifon blaenorol". Dyma oedd ein hargymhelliad:

> *'Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor, ar yr adeg y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cyfrifon 2022-23 os nad cyn hynny, ddiweddariad am yr argymhellion a wnaed ganddo a'r Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn dilyn gwaith craffu ar y cyfrifon nad yw wedi'u gweithredu eto. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu eto ar argymhelliad y Pwyllgor, yn ogystal â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei weithredu. [Argymhelliad 7]'*[158]

**177.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, gan nodi ei bod wedi asesu 59 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau ar y cyfrifon rhwng 2017-18 a 2020-21.[159] Dywedodd "O'r 59 o argymhellion hyn, mae 9 heb eu hateb neu wedi'u hateb yn rhannol"[160], gan ddarparu gwybodaeth amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys ein hargymhellion ni ac argymhellion y Pwyllgor a'n rhagflaenodd (gan gynnwys argymhellion a ailadroddwyd) am:

- Perfformiad o ran adrodd.
- Cynhyrchu Cyfrif Llywodraeth Gyfan ar gyfer Cymru.
- Gweithio gyda chyrff a noddir ynghylch cyhoeddi papurau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.
- Cyhoeddi papurau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru.

---

[158] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2021-22: Llywodraeth Cymru,
[159] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, 12 Chwefror 2024
[160] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, 12 Chwefror 2024

- Camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella prosesau cadw cofnodion.
- Gwaith Swyddfa'r Cabinet ar ei pherthynas ag Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.
- Darparu diweddariadau chwe misol ar gynnydd gyda Monitro Ôl-Gwblhau, Grantiau Busnes COVID-19.

## Ein barn ni

**178.** Drwy gydol ein gwaith craffu, rydym wedi nodi a chroesawu'r gwelliannau i gyfrifon Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf ac rydym yn gobeithio bod ein gwaith wedi bod yn gyfraniad adeiladol i'r gwelliannau hynny.

**179.** Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i yrru newidiadau pellach i'w chyfrifon. Mynegodd yr Ysgrifennydd Parhaol pa mor ddifrifol y mae ef a'i staff yn cymryd gwaith craffu'r Pwyllgor ac mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, a'i fod yn gobeithio y gallai'r Pwyllgor weld y dyfarniadau'n cael eu gwneud ynghylch parhau i geisio gwella'r cyfrifon.[161]

**180.** Gan fod yn fwy penodol, esboniodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol:

> *'I think the particular area that we've picked up from committee recommendations [...] has just been to make it more visual and to try and bring it to life a little bit. That's not because I feel it's perfect at this stage, and it will continue to develop, but we'll await your next committee recommendations with interest, and, as always, we will reflect on them very seriously and see what we can do with that to make it a better document.'*[162]

**181.** O ran blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau pellach yng Nghyfrifon 2023-24, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym yr hoffai wneud yr hyn a ganlyn:

> *'find some way to give that insight into the functions and responsibilities of the Welsh Government—obviously, understandably,*

[161] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 257
[162] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 259

> *through a financial lens, but I think showing where that impact occurs on behalf of Wales feels really important.'*[163]

**182.** Drwy ein gwaith craffu ar gyfrifon, byddwn yn adolygu'r newidiadau hyn a byddwn yn parhau i fonitro sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ein hargymhellion.

[163] Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2024, paragraff 261

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **20 Mawrth 2024** | **Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dominic Houlihan, Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd,**<br>Llywodraeth Cymru |